



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 25.7.19
yn Neuadd Reichel, Bangor

Yn bresennol:

Mr M Polin	Cadeirydd
Mr G Doherty	Prif Weithredwr
Cyng C Carlisle	Aelod Annibynnol
Mrs D Carter	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro
Mr J Cunliffe	Aelod Annibynnol
Mrs M Edwards	Aelod Cyswllt - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mrs S Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Mrs S Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro
Mrs J Hughes	Aelod Annibynnol
Mrs M W Jones	Is-gadeirydd
Mrs G Lewis-Parry	Ysgrifennydd y Bwrdd
Mrs L Meadows	Aelod Annibynnol
Dr E Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Miss T Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Yr Athro M Rees	Is-Gadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Mrs L Reid	Aelod Annibynnol
Mr C Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol
Mr A Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Mrs H Wilkinson	Aelod Annibynnol
Mr M Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad

Yn bresennol:

Mrs K Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol
Mrs L Singleton	Cyfarwyddwr Partneriaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (<i>Dirprwy ar gyfer Mr A Roach</i>)

Cyfieithydd, aelodau o'r cyhoedd ac arsylwyr

Eitem ar yr Agenda	Gweithredu gan
<p>A19.1 Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>A19.1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Cyflwynodd bob aelod ei hun yn ddwyieithog, a diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu hymrwymiad i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Yna darllenodd ddatganiad wedi'i baratoi fel a ganlyn:</p> <p>A19.1.2 "Bore da, a chroeso i gyfarfod cyffredinol blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mark Polin dw i, Cadeirydd y Bwrdd. Dyma fy Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf, wedi i mi gymryd y rôl hon ar 1 Medi y llynedd. Mae nifer o newidiadau pwysig wedi digwydd ers hynny ac yn awr, ac mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodiad Aelodau Annibynnol newydd ac Is-Gadeirydd, a datblygiad pwyslais o fewn y grŵp cyfan o Aelodau Annibynnol ar sicrhau bod y prosesau llywodraethu, craffu a sicrwydd cywir yn bodoli, a ble nad ydynt, yr eir i'r afael â hyn. 	

- Penodiad dau Gyfarwyddwr newydd- Cynllunio a Pherfformiad, a Gofal Cychwynnol a Chymuned, a phenodiadau newydd mwy diweddar i rolau presennol Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Cyllid.
- Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi dod ag arbenigedd i mewn i gynorthwyo gydag adferiad ariannol, angen a gafodd ei gydnabod gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd.
- Rydym wedi newid y ffordd y mae'r Bwrdd yn cyflawni ei fusnes, yma yn y fforwm hwn, a hefyd ar draws strwythur ein Pwyllgorau; rhywbeth y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud sylwadau positif amdano. Mae hyn wedi cynnwys symud tuag at gyfarfodydd Bwrdd bob yn ail fis er mwyn darparu gweithdai yn y misoedd eraill sy'n ein galluogi i archwilio pynciau pwysig mewn manylder, a chytuno ar y camau gweithredu sy'n ofynnol.
- Rydym wedi parhau i ddatblygu'r Bwrdd, gyda gwaith ar y gweill gyda Chronfa Kings, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu gweithredu ar ei lefel uchaf.
- Rydym wedi miniogi ein pwyslais o ran adrodd ar berfformiad, gan ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth, ac yn cynnwys yr agweddau hynny o berfformiad sy'n rhwystr i'r sefydliad rhag gadael Mesurau Arbennig; a
- Rydym wedi rhoi cryn amser er mwyn gwneud ein blaenoriaethau yn glir, beth rydym angen ei wneud i'w cyflawni, a pha ganlyniadau fydd yn cael eu mesur er mwyn dangos gwelliant.

Er bod llawer wedi cael ei gyflawni gan y sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf, mi wna i adael i Gary eu disgrifio gan ei fod wedi bod yma am y tymor llawn, mae llawer mwy i'w wneud os yw'r sefydliad am symud at ffordd gynladwy tuag at welliant, ac o ran hyn, ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd cyfarfod busnes y Bwrdd sy'n dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol hwn. Gan fod y busnes hwnnw yn mynd i'r afael ag agweddau o arweinyddiaeth a chyfeiriad, perfformiad (yn cynnwys ansawdd a diogelwch cleifion a staff), a hefyd rheoli ein cyllidebau, sef y prif feysydd sy'n gofyn am ein sylw ac i ni weithredu arnynt. O ran arweinyddiaeth a chyfeiriad, yn dilyn ein gwaith gyda Price Waterhouse Coopers a gydag Uned Cyflenwi Cyllid Llywodraeth Cymru, mae Cynllun diwygiedig yn cael ei gyflwyno heddiw, a ddylai ddisgrifio yn glir ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, yn ogystal ag edrych ymlaen, ac amlinellu'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn cyflawni. Bydd targedau gwella perfformiad ar gyfer gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu, yn cael eu cyflwyno er mwyn eu trafod a'u cymeradwyo ar yr un pryd. Ochr yn ochr â'r Cynllun, adroddir ar gynnydd gwaith sydd ar y gweill i unio Strategaeth Gwasanaethau Clinigol fydd yn disgrifio yn gliriach ein gweledigaeth i'r dyfodol o ran model darparu a chyfluniad ein holl wasanaethau allweddol. Mae'r Bwrdd yn bwriadu i glinigwr, a phob elfen arall o'r gweithlu, fod yn rhan o ddylunio'r Strategaeth hon, gan mae'n sicr y bydd angen newid wrth symud ymlaen, ac rydym eisiau i'r newid gael ei ffurfio gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau dan sylw, a'u harwain ganddynt. Gan droi at gyllid, mae newid ar y gweill yma hefyd, fel rwyf eisoes wedi cyfeirio ato hefyd. Bydd penodiad Cyfarwyddwr Adferiad ariannol profiadol o'r tu allan i'r sefydliad, yn ogystal â Chyfarwyddwr Cyllid newydd dros dro, yn dod gyda llawer mwy o fanylder yn ein dull tuag at welliant a rheolaeth ariannol. Fel rwy'n ei ddweud yn fy nghyflwyniad i'r Adroddiad Blyneddol, mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod fod pawb eisiau gweithio mewn amodau sy'n arwain atynt yn mwynhau eu gwaith ac i ddarparu'r gwasanaeth gorau, a chael eu cynorthwyo gan dechnoleg sy'n gwneud eu bywydau yn haws, ac yn diogelu'r rhai rydym yn gofalu amdanynt. Yn hynny o beth, mae'r Bwrdd wedi cyrraedd synnwyr clir o ran ble mae ein blaenoriaethau o ran buddsoddi yn ein hadeiladau a'u rhesymoli, ac yn bwriadu cyrraedd penderfyniad tebyg yn fuan o ran technoleg gwybodaeth. Rydym yn credu fod cwmpas i leihau gwariant diangen, ac felly caniatáu buddsoddi mewn gwelliannau fydd yn ein helpu ni gyd i weithio'n well. Bydd y cyfrifoldeb arnom i droi'r dyheadau hyn yn weithredoedd. Mae mwy o

<p>ymdrech yn cael ei wneud o ran penderfynu ar y sgiliau a'r rolau rydym eu hangen yn ein gweithlu, heddiw ac wrth symud ymlaen, i lywio ein gweithgareddau recriwtio yn well, a ddylai yn ei dro leihau'r galw ar ddiogelu staff drwy asiantaethau. Mae'r Bwrdd yn cydnabod na fydd y gwelliannau cynlluniedig hyn, a mwy, yn cael eu cyflawni heb ymrwymiad parhaus, gwytnwch a phroffesiynoldeb y rhai sy'n gweithio yn y sefydliad, ac rydym mor ddiolchgar iddynt am bopeth y maent wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch am fynychu, ac am eich diddordeb yn y Bwrdd Iechyd, a'i waith."</p>	
<p>A19.2 Adroddiad Blynyddol 2018/19, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Diweddariad Mesurau Arbennig</p> <p>A19.2.1 Bu i'r Prif Weithredwr roi cyflwyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A fyfyriondd ar y flwyddyn ddiwethaf- gan bwysleisio ei bod wedi bod yn amser heriol, ond bod gwelliannau hefyd megis dad-ddwysau gwasanaeth y tu allan i oriau gofal cychwynnol o Fesurau Arbennig, gwelliannau o ran ansawdd a diogelwch, canlyniadau positif o'r arolwg staff a chyflawni safon platinwm ar gyfer Safon Iechyd Corfforaethol yn y Gwaith. • A oedd yn cynnwys crynodeb o gynnydd yn erbyn bob thema Mesurau Arbennig. • A amlinellodd sut yr ymdriniwyd ag ymgysylltu â phartneriaid allweddol • A ddisgrifiodd egwyddorion Cymru Iachach. • Gwelliannau manwl o ran gwasanaethau iechyd meddwl, ac ymateb i argymhellion HASCAS ac Ockenden. • A ddisgrifiodd ystod o sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. • A amlinellodd fodelau newydd o ofal. • A bwysleisiodd gostyngiadau cynladwy o ran oediadau ambiwlans. • A roddodd wybodaeth am gynnydd o ran clystyrau Meddygon Teulu. • A nododd welliant cynladwy o ran rheoli atal heintiau. • A ddisgrifiodd y gwaith ataliol sydd ar y gweill yn y gymuned. • A gadarnhaodd gostyngiad sylweddol o ran oedi cyn trosglwyddo gofal. • A bwysleisiodd gostyngiad mewn cyfraddau marwoldeb. • A amlinellodd y datblygiad a'r buddsoddiad mewn ystadau, offer a gwasanaethau. • A ddisgrifiodd ystod o heriau parhaus yn cynnwys gofal wedi'i drefnu, gofal heb ei drefnu a chyllid • A amlinellodd blaenoriaethau'r Bwrdd wrth symud ymlaen <p>A19.2.2 Canmolodd y Prif Weithredwr yr adroddiad blynyddol i'r cyfarfod, a gwahoddodd yr aelodau a'r arsylwyr i adolygu'r ddogfen a gyhoeddwyd.</p>	
<p>A1903 Datganiad Ansawdd Blynyddol (AQS)</p> <p>A19.3.1 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gyflwyniad a:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gadarnhaodd bod y Datganiad Ansawdd Blynyddol yn ddogfen allweddol a ysgrifennwyd ar gyfer y cyhoedd • Pwysleisiodd bod yr AQS yn cyd-fynd â'r safonau gofal iechyd dan arweinyddiaeth y tri gweithredwr clinigol • Cyfeiriodd at y Strategaeth Gwella Ansawdd (QIS) fel y brif ddogfen strategol gyffredinol • A ddisgrifiodd y cyflawniadau yn erbyn blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2018-19 	

<ul style="list-style-type: none"> • A amlinellodd y blaenoriaethau ar gyfer 2019-20 a oedd yn cynnwys darparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol; ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth i wneud gwelliannau; a darparu gofal yn unol â'r QIS. 	
<p>A19.4 Cyfrifon Ariannol Blynyddol</p> <p>A19.4.1 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gyflwyniad a ddisgrifiodd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dargedau statudol ac ariannol eraill a pherfformiad BIPBC yn eu herbyn • Gwariant refeniw y sefydliad • Dadansoddiad o wariant yn ôl Uwch Adran • Gwariant yn ôl categori (cyflogau, pethau nad ydynt yn gyflogau, gofal cychwynnol a gofal gan ddarparwyr eraill) • Defnydd o staff asiantaeth • Ystod o fuddsoddiadau cyfalaf • Archwiliad o gyfrifon gan Swyddfa Archwilio Cymru a gadarnhaodd nad oedd camdatganiadau nac anghysondebau adrodd materol • Rhagolwg ar gyfer 2019-20 yn erbyn cyd-destun lleol a chenedlaethol • Targedau arbedion a refeniw 	
<p>A19.5 Rhagolwg</p> <p>Ni chodwyd unrhyw sylwadau penodol.</p>	
<p>A19.6 Fforwm Agored</p> <p>A19.6.1 Gofynnodd Mr M Joyce (aelod o'r cyhoedd) gwestiwn o ran a oes gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol i ddarparu gofal cleifion diogel ac urddasol sy'n effeithiol yn glinigol, a sut y byddai'n sicrhau bod unrhyw drawsnewid gwasanaeth yn effeithiol a diogel.</p> <p>A19.6.2 Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud er bod dyletswyddau statudol o amgylch cyllid, bod gan y Bwrdd ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau sy'n ddiogel yn glinigol i'w boblogaeth. Cyfeiriodd at ystod o feysydd ble mae cynnydd amlwg, ond bu iddo gydnabod yr heriau sydd ar ôl a oedd wedi cael eu disgrifio gan Mr Joyce hefyd. Cadarnhaodd fod gan Gynllun Blynyddol y Bwrdd a'r Trosolwg Tair Blynedd lefel o risg cysylltiedig. O ran y Strategaeth Gwasanaeth, er nad yw hon yn hollol gynhwysfawr, roedd cynnydd ar draws rhannau amrywiol o waith, ac roedd ymrwymiad i sicrhau gwrandio ar staff, cleifion, a rhanddeiliaid fel rhan o unrhyw drawsnewid gwasanaeth. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol at enghreifftiau hefyd ble mae newid gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cael eu gweithredu'n bositif megis Ymyriad Coronaidd drwy'r Croen Cychwynnol (PPCI) a gofal fasgwlaidd. O ran sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel, ychwanegodd fod data o gwynion, canlyniadau, achosion cyfreithiol ac adborth cleifion oll yn cael eu triogli.</p> <p>A19.6.3 Gwnaeth Mr Joyce sylw pellach ei fod wedi codi materion tebyg dros y saith mlynedd ddiwethaf, ac nad oedd yr ymatebion wedi rhoi sicrwydd iddo. Cydnabu'r Cadeirydd y sefyllfa annymunol oedd y Bwrdd ynddi, o ran y gofynnir iddynt ystyried Cynllun nad oedd yn derfynol, a dywedodd nid yw'n bwriadu bod yn yr un sefyllfa y flwyddyn nesaf. Cyfeiriodd at y gwaith parhaus ynglŷn ag adferiad ariannol, a chydabu'r cwmpas sylweddol ar gyfer gwella o amgylch gofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu. Er hynny rhoddwyd sicrwydd iddo bod pwyslais llawer mwy cadarn ar</p>	

<p>ddatblygu'r Cynllun, ac y byddai manteision gwelliannau gwasanaeth yn cael eu disgrifio'n fwy clir mewn achosion busnes yn y dyfodol. Gorffennodd drwy gefnogi'r safbwynt p'un a yw'r dyletswydd i ddarparu gofal diogel yn ddyletswydd statudol ai peidio, mai dyma bwyslais y Bwrdd ym mhopeth a wna.</p>	
<p>A19.7 Sylwadau Terfynol</p> <p>A19.7.1 Roedd y Cadeirydd yn dymuno cydnabod bod cynnydd wedi cael ei wneud, a bod y Bwrdd yn dechrau canolbwyntio ar y pethau cywir i sicrhau taith gwella cynladwy. Roedd hefyd yn awyddus i weld pwyslais ar feysydd a fyddai'n galluogi'r Bwrdd i ddod allan o fesurau arbennig.</p>	